

Resilient Green Spaces
Mannau Gwyrdd Gwydn

# Mynediad y Gymuned at Ffermydd a Thir

## Astudiaeth Achos Gydweithfa Tir Ecolegol

Mannau Gwyrdd Gwydn

## Cyfrannu Fferm Maesgwyn Isaf i'r Gydweithfa Tir Ecolegol

Mae Cynghrair Gweithwyr y Tir a Shared Assets wedi ymuno i ddod o hyd i ffyrdd o wireddu heriau a chyfleoedd mynediad i dir i newydd-ddyfodiaid a chymunedau lleol sydd â diddordeb mewn ffermio ac arferion tyfu amaethecolegol fel rhan o'r prosiect Mannau Gwyrdd Gwydn. Bwriad y gyfres o astudiaethau achos yw arddangos ymarfer da presennol ymhlith grwpiau amrywiol yng Nghymru, yn ogystal ag esbonio sut y maen nhw wedi ceisio mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y maen nhw wedi eu hwynebu ar y daith, er mwyn ysbrydoli eraill allai fod ar daith debyg. Mae'r astudiaeth achos hon wedi cael ei pharatoi gan y Gydweithfa Tir Ecolegol.

## Y Gydweithfa Tir Ecolegol

Mae'r Gydweithfa Tir Ecolegol (ELC) yn gymdeithas budd cymunedol, cydweithredol o ran strwythur, wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â diffyg safleoedd fforddiadwy ar gyfer bywoliaethau ecolegol ar y tir yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ELC yn cael ei gefnogi gan yr Ymddiriedolaeth Tir Ecolegol (ELT) sy'n elusen gofrestredig. Gyda'i gilydd maen nhw'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o heriau cymhleth a hirsefydlog cymdeithasol ac ecolegol mewn ffordd syml a phragmatig drwy gael gwared ar rwystrau i fynediad i dir at ddefnydd cynaliadwy. Cafodd yr ELC ei sefydlu yn 2009, a'i fodel busnes craidd yw prynu tir amaethyddol, sicrhau caniatâd cynllunio a gosod isadeiledd ar gyfer clystyrau o dyddynnod fforddiadwy, wedi'u rheoli'n ecolegol. Caiff y ffermydd eu gwerthu wedyn ar brydles hir i ffermwyr newydd gyda chaniatâd i adeiladu eu cartref cynaliadwy eu hunain gyda gwasanaethau oddi ar y rhwydwaith a ffordd fynediad.

Gweledigaeth yr ELC yw gweld cefn gwlad byw sy'n gweithio, lle mae tir yn cael ei werthfawrogi fel ffordd i wella lles y gymuned, y cefn gwlad a'r byd naturiol. Gan adfywio economïau gwledig, mae newydd-ddyfodiaid yn cael eu cefnogi i mewn i amaeth drwy wneud mynediad i dir yn realiti i bawb. Mae'r ELC yn dal tir ar gyfer amaethecoleg am byth, er lles y gymuned.

Nod yr ELC yw galluogi bywoliaethau bach eu heffaith, ar y tir. Drwy stiwardiaeth tir, mae cymunedau'n creu bwyd a chynnyrch iachusol ac ecolegol dda o'r tir sy'n llesol i bobl ac i'r biosffer, heddiw ac i'r dyfodol. Ar safleoedd yr ELC mae stiwardiaid tir yn rhedeg ffermydd bach sy'n tyfu amrywiaeth eang o gynnyrch ar gyfer eu cymunedau lleol yn cynnwys cynlluniau blychau llysiau a ffrwythau, perlysiau a blodau bwytadwy, llysiau a saladau organig cyfanwerthol, coed ffrwythau treftadaeth, a busnes o'r pridd i'r plat, gyda chyfleoedd i bobl leol gymryd rhan yn y broses o dyfu bwyd.

## Fferm Maesgwyn Isaf

Mae Maesgwyn Isaf yn fferm 47 erw yn Sir Gaerfyrddin, De Cymru. Mae'r fferm yn cynnwys pedwar cae pori ar lethr, sawl ardal o goetir, perllan, nentydd, tyrbin gwynt, cylch cerrig, ffermdy gyda phum ystafell wely ac adeiladau fferm yn cynnwys dwy ysgubor fawr a thwnnel polythen.

Prynodd y teulu Carter y fferm yn 2002 a thros gyfnod o amser fe blannon nhw atalfeydd gwynt helaeth o gwmpas pob cae, plannu coed brodorol ar rannau isaf y safle a gosod trac mynediad drwy goetiroedd presennol a rhai newydd. Fe osodon nhw dyrbin gwynt 6kW yn y cae uchaf canol a chyn hynny fe blannon nhw fiscanthus yn yr un cae, sy'n fiodanwydd, ond mae bellach wedi cael ei droi'n ôl yn dir pori. Fe wnaethon nhw ail-greu cylch cerrig yn agos i'r llwybr troed Landsger a phlannu Coedwig Heddwch lle mae llwch llawer o'u ffrindiau a'u teulu wedi ei wasgaru. Cafodd y caeau pori eu rhentu ar gyfer pori.

Yn 2010 cysylltodd y teulu Carter â'r ELC gan eu bod am sicrhau y byddai'r tir yn cael ei barchu a'i reoli'n ecolegol am byth. Roedden nhw'n ystyried creu cymuned fwriadus ym Maesgwyn Isaf gyda chyfleoedd ar gyfer gwasanaethau addysgiadol yn y defnydd ecolegol o dir. Roedden nhw'n fodlon cyfnewid eu hawl i'r tir am brydles hir ar eco-dŷ bychan cyn belled â bod gweddill y safle'n cael ei reoli'n ecolegol ac yn gyfrifol gan yr ELC. Roedd y teulu Carter wedi gweithio ar y tir ac roedden nhw eisiau parhau i fod â rôl ar y fferm, ond un llai caled yn gorfforol. Aeth y tîm ELC ar ymweliad gan wneud cynnig iddyn nhw i greu bythynnod bach ar eu tir ond chafodd hyn ddim ei dderbyn a wnaethon ni ddim clywed ganddyn nhw eto am nifer o flynyddoedd.

Cysylltodd Stuart Carter â ni eto yn 2018 i ddweud wrthyn ni fod yr ELC wedi cael ei enwi fel buddiolwr Fferm Maesgwyn Isaf yn ei ewyllys ond roedd ganddo rai amodau yr oedd am eu hychwanegu. Roedd ei wraig, Jean, wedi marw ac roedd y ddau wedi cytuno eu bod am i'r tir fynd i'r ELC cyn ei marwolaeth. Bryd hyn, yn haf 2018, fe aethon ni i ymweld â Stuart eto i gerdded y tir, ac fe gytunon ni â'i amodau sef i gynnal rhannau o'r fferm ar gyfer mynediad i'r cyhoedd o gwmpas Llwybr y Landsger ac i ganiatáu i aelodau ei deulu i barhau i fyw yn eu carafán ar y fferm cyhyd ag y dymunent wneud hynny. Fe adawon ni gan obeithio y byddai'n amser hir cyn i ni glywed unrhyw beth am Faesgwyn Isaf. Yn drist, llai na dwy flynedd yn ddiweddarach, ym mis Mai 2020, bu farw Stuart yn dawel a chawsom wybod am y gymynrodd gan ei gyfreithwyr.

## Profiant

Ysgutorion ystâd Stuart Carter oedd ei gyfreithiwr ac aelod o'i deulu. Rhagwelwyd y gallai'r broses o brofiant gymryd hyd at flwyddyn. Roedd hi'n bosibl y byddai'r ewyllys yn cael ei herio ac wedyn byddai'r broses hon



*Golygfa o Faesgwyn Isaf (Llun gan: Cydweithfa Tir Ecolegol)*

yn gallu cymryd hirach ac efallai na fyddai'r fferm yn dod i'r ELC. Gan fod angen gwaith cynnal a chadw ar y fferm a'r ffermdy rhag iddyn nhw fynd yn adfail, awgrymodd y cyfreithiwr y gellid caniatáu trwydded i ELC i feddiannu'r fferm cyn gynted â phosibl er mwyn gallu gwneud y gwaith yma. Roedden ni'n gwybod nad oedd sicrwydd y bydden ni'n etifeddu'r fferm yn y pen draw ond roedden ni'n teimlo dyletswydd i'w gynnal a'i gadw am y tro. Yn anffodus, teimlai'r ysgutor oedd yn aelod o'r teulu nad oedd hyn yn angenrheidiol a'i wrthod. Cafodd y fferm a'r ffermdy eu gadael yn wag am gyfnod y broses profiant.

## Cymryd Perchenogaeth o'r Fferm

Fe gymerodd hi dros ddwy flynedd i weithredu trosglwyddo'r fferm a gafodd ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2022. Yn ystod y cyfnod hwn roedd llawer o'r fferm wedi tyfu'n wyllt ac roedd y tŷ wedi mynd yn annrhigiadwy oherwydd lleithder a difrod gan y tywydd. Roedd rhai o'r caeau'n cael eu defnyddio ar gyfer pori gan ffermwr lleol ac fe dopiodd y caeau eraill yn gyfnewid am hyn. Stopiodd y tyrbin gwynt â gweithio ac roedd angen gwaith trwsio mawr arno cyn iddo ddechrau cynhyrchu trydan eto.

Nid oedd yr aelodau o'r teulu oedd yn byw ar y fferm wedi bod mewn sefyllfa i ofalu am y fferm na'r ffermdy ac roedd wedi mynd yn adfail.

Roedd gwaith adnewyddu mawr i'w wneud cyn y bydden ni mewn sefyllfa i gynnig cyfle i ffermwyr newydd i gychwyn gwaith ar y fferm. Er gwaethaf hyn roedd nifer o fanteision o hyd o etifeddu fferm dros brynu tir amaethyddol i'w ddatblygu yn ffermydd bychan preswyl.

Er bod llawer o waith i'w wneud i ddod â'r ffermdy a'r adeiladau yn ôl i gael eu defnyddio, roedd hyn yn waith allai gychwyn ar unwaith. Fe lwyddon ni i wneud rhan o'r tŷ yn drigiadwy a dod â gofalwyr i mewn i'r fferm sydd wedi llwyddo i glirio'r llwybrau a dechrau gweithio ar drwsio'r tŷ. Rydyn ni wedi cadw costau gwneud hyn i lawr drwy gynnig llety am ddim yn gyfnewid am nifer o oriau o waith ar y fferm. Mae hyn wedi profi i fod yn drefniant sydd o les i'r ddwy ochr gan fod Fferm Maesgwyn Isaf yn lle hyfryd i fyw a gweithio ynddo. Mae'r ELC hefyd wedi elwa o gael pobl ar y safle sy'n dod i adnabod y fferm yn dda ac sy'n dod yn rhan o'r gymuned leol.

## Tir Ychwanegol

Rydyn ni wedi llwyddo i brynu cae 20 erw sy'n ffinio oedd unwaith yn rhan o'r fferm, a hynny am bris da iawn. Yr unig ffordd i gyrraedd y tir yw drwy Faesgwyn Isaf felly nid oedd yn ddeniadol i brynwyr pan aeth i ocsiwn. Fyddai'r cyfle hwn ddim wedi bod ar gael i ni heb i ni fod yn berchen ar y fferm bresennol gan fod rhaid i safleoedd ELC feddu ar nodweddion penodol sy'n cynnwys mynediad drwy ffordd. Mae bod â thir pori ychwanegol yn creu potensial ar gyfer busnes da byw bychan ar y fferm.

## Cyllido Torfol

Roedd derbyn cyfraniad o fferm hardd yn caniatáu i ni estyn allan i'n cymuned a chodi arian i ddod â'r fferm yn ôl yn fyw. Fe godon



*Ffermdy Maesgwyn Isaf (Llun gan: Cydweithfa Tir Ecolegol)*

ni fwy o arian na'n targedau a chael digon o arian i gychwyn ar y gwaith trwsio angenrheidiol i gael pobl ar y fferm. Nid oes gennym unrhyw ddyledion ar y fferm, yn wahanol i pan fyddwn ni'n prynu tir i greu bythynnod gan ein bod yn benthyca arian i brynu ac mae'n rhaid ad-dalu hwn pan fydd y datblygiad yn barod i gael ei werthu.

## Cynlluniau at y Dyfodol

Mae bod heb ddyledion i'w talu'n ôl yn caniatáu i'r ELC ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer tenantiaethau ffermydd bach. Yn ogystal â gwerthu prydlesi hir (150 mlynedd), roedden ni'n gallu cynnig cytundebau rhent diogel sy'n fwy fforddiadwy ac sydd hefyd yn caniatáu i bobl dderbyn prydlesi fferm byrrach. Gall yr arian sy'n dod i mewn drwy'r rhenti gael ei fuddsoddi'n uniongyrchol yn y fferm i barhau gyda'r gwaith adfywio. Gan nad oes rhaid i ni geisio caniatâd cynllunio gallwn ystyried pethau amgen i fusnesau fferm masnachol megis ffermio ymgynhaliol, busnesau crefft lleol a gweithgareddau seiliedig ar dir sydd ond angen lleiniau bach o dir.

Mae'r tir a'r adeiladau'n cynnig nifer o gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a byddwn yn ymgynghori â phobl yn lleol i weld sut i wireddu hyn yn y ffordd orau. Gallai'r ffermdy ddarparu llety rhent i bobl

leol, sydd yn brin yn yr ardal, a gallai'r adeiladau eraill fod yn fannau gwaith fforddiadwy ar gyfer masnachwyr lleol fel seiri ac adeiladwyr.

Bydd yr haelioni a'r gofal dros y tir a arweiniodd y Carters i gyfrannu eu fferm i'r ELC a dod â hi i berchnogaeth gymunedol yn darparu cartref a bywoliaeth i lawer o newydd-ddyfodiaid i ffermio yn ogystal â bod yn adnodd i'r gymuned leol ymhell i'r dyfodol.

## Dysgwch ragor:

https://ecologicalland.coop/sites/maesgwyn-isaf/

### Mannau Gwyrdd Gwydn:

Mae Mannau Gwyrdd Gwydn yn brosiect partneriaeth gwerth £1.27m sy'n cael ei arwain gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol i dreialu systemau bwyd eraill sydd wedi'u hail-leoleiddio gan ddefnyddio cymunedau a'u mannau gwyrdd fel sbardun ar gyfer newid ledled Cymru tan fis Mehefin 2023.

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy gynllun Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru -Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.